**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Llanbedrog**
**Llanbedrog**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 7NU**

**Rhif yr Ysgol: 6612060**

**Dyddiad yr Arolygiad: 22 Ebrill 2008**

**gan**

**Len Jones**

**16360**

**Dyddiad Cyhoeddi: 26 Mehefin 2008**

**O dan rif contract Estyn: 1117707**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

91. Cyfranna'r ysgol yn dda i achlysuron cymunedol ac i elusennau penodol gan gynnwys henoed yr ardal. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfoethogi profiadau addysgol a datblygiad personol y disgyblion, ac yn eu paratoi ar gyfer bod yn aelodau cyfrifol o'u cymuned.

92. Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i ddatblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion trwy weithredu rhaglen gynhwysfawr sydd hefyd yn cynnwys gofynion addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae 'amser cylch', addysg grefyddol a thrafodaethau dosbarth am faterion cymdeithasol a moesol yn rhan annatod o fywyd yr ysgol ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad y disgyblion.

93. Mae'r cyflwyniadau yn y sesiynau addoli-ar-y-cyd yn berthnasol ac o ansawdd da. Er hyn, ni roddir digon o sylw i'r elfen o addoliad ac, o'r herwydd, nid yw datblygiad ysbrydol y disgyblion yn cael ei feithrin yn ddigonol.